CYFRAITH CYMRU

Cylchlythyr Myfyrwyr Cymraeg y Gyfraith
Rhif 6, Mawrth 2017

Sylfeini'r Gyfraith Gyhoeddus – nawr ar-lein

Ar 31 Ionawr lansiwyd e-lyfr Sylfeni'r Gyfraith Gyhoeddus yn y Senedd yng Nghaerdydd.

Bydd hwn yn gyhoeddiad defnyddiol iawn i unrhyw un sy'n astudio'r Gyfraith ac mae ar gael ar y Porth am ddim!

Yn y lansiad nododd Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd y Coleg Cymraeg, mor eang yw'r cynnwys. Sonir am Dicey a'i feddyliau ar sofraniaeth seneddol o 1885 – pan oedd ymysg pethau eraill yn poeni y byddai caniatáu elfen o ymreolaeth i Iwerddon yn amharu ar sofraniaeth seneddol; trafodir uchelfraint frenhinol – trafodaeth hynod amserol wrth ystyried dyfarniad diweddar yr Aruchel Lys am Brexit.

Golygydd y gyfres yw'r Athro Thomas Watkin ac ysgrifennwyd e-lyfr Sylfeini'r Gyfraith Gyhoeddus gan Keith Bush QC. Mae'r ffaith i ddau berson mor uchel eu parch a dwfn eu gwybodaeth roi amser at gyhoeddiad yn y Gymraeg yn arwydd o'r statws newydd a roddir i'r iaith ym maes y Gyfraith bellach.

I ddefnyddio'r e-lyfr, ewch i'r 'Llyfrgell Adnoddau' sydd i'w weld ar y Porth.

Cynhadledd myfyrwyr Cyfraith 18 Tachwedd

Cafwyd cynhadledd cyfraith lwyddiannus yn y Llyfrgell Genedlaethol ym mis Tachwedd.

Un o uchafbwyntiau'r diwrnod oedd sgwrs y Barnwr Nic Parry QC. Atgoffodd sut bydd cyfreithwyr yn delio gydag agweddau mwyaf anodd bywyd – marwolaeth, cam-drin, ysgaru.

Nododd sawl achos lle roedd ei allu i siarad yn naturiol gyda diffynyddion yn Gymraeg wedi arwain at achos decach.

Cafwyd panel gyrfaoedd gyda chyngor gwerthfawr gan Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu Dyfed-Powys; Lisa Fenton sy'n gweithio gyda menywod sy'n cael eu cam-drin a Dr Nerys Llywelyn Jones sy'n rhedeg cwmni ei hun, Agri Advice.

Cafwyd cyflwyniad defnyddiol iawn i'r e-lyfr newydd 'Sylfeini'r Gyfraith Gyhoeddus' gan y Golygydd, Keith Bush QC a chydlynydd y prosiect, Carys Aaron.

Gobeithiwn gynnal Cynhadledd arall yn 2017-18.

Modiwl Cymraeg newydd i Fangor

Bydd modiwl Cymraeg newydd ym Mangor yn 2017/18 - 'Y Gyfraith ar Waith'. Modiwl ymarferol iawn ar sail gweithdai, yn edrych ar gymhwysiad 'byd go iawn' y gyfraith. Bydd yn arwain myfyrwyr drwy ymarferion yn cynnwys dadansoddi a chyfieithu cyfreithiau Cymru, drafftio ewyllys, cyfweld â chleient, croesholi tystion, a chyflwyno achos yn y llys.

Dallt y Dalltings Brexit a Bil Cymru

I ddeall goblygiadau cyfreithiol Brexit a Mesur Cymru, cofiwch ddilyn gwaith trylwyr Dr Huw Pritchard, Prifysgol Caerdydd ar trydar: @Huw_Pritchard.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Pwy 'di Pwy? - Lisa Penfold, Prifysgol Abertawe

Un o le ydych chi a beth yw'ch hanes?
Dwi'n dod yn wreiddiol o Fynachlog-ddu ac es i i Ysgol y Preseli. Dwi nawr yn fy ail flwyddyn ym mhrifysgol Abertawe yn astudio y Gyfraith. Derbynies i ysgoloriaeth cymhelliant gan y CCC a dwi hefyd yn un o lysgenhadon y CCC ar gyfer 2017.

Pa fodiwlau Cyfraith ydych chi'n dilyn yn Gymraeg?
Blwyddyn diwetha', cyfraith contract a chyfraith gyhoeddus oedd fy modiwlau Cymraeg, ond ar hyn o bryd dwi'n astudio cyfraith trosedd a chyfraith tir drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ydych chi'n gweld mantais defnyddio'r Gymraeg ym maes y Gyfraith?
Yn bendant, mae'n fanteisiol iawn! Rwy'n dod i ddeall y pynciau yn well gan fy mod yn gorfod cyfieithu rhan fwyaf o'r gwaith o Saesneg i Gymraeg. Dwi'n credu fod yna alw am fwy o siaradwyr Cymraeg ym maes y gyfraith ac felly dwi'n siwr bydd hyn o fantais yn y dyfodol wrth imi chwilio am swydd!

Oes gennyt ddiddordeb arbennig ym maes y Gyfraith?
Oes, dwi'n hoff iawn o gyfraith trosedd, a chyfraith teulu, yn enwedig hawliau plant.

Beth hoffech chi ei wneud ar ôl graddio?
Efallai LPC, ac yna gweithio mewn cwmni sy'n delio gyda chleientiaid yn Gymraeg.

Gwennan Jones – Profiad Gwaith gyda JCP

Pa flwyddyn wyt ti a beth wyt ti'n ei wneud?
Rwy'n dod o Gaerfyrddin, wedi cwblhau fy ail flwyddyn ac yng nghanol cyfnod o brofiad gwaith gyda chwmni JCP cyn dychwelyd i'r Brifysgol ym mis Medi. Mae'n rhan o'r cwrs yn y Brifysgol, a bu 4 ohonom yn gweithio gyda JCP ar ôl bod yn llwyddiannus yn y system recriwtio. Mae gweithio 9-5 wedi bod yn agoriad llygaid!

Beth yw dy brofiad gwaith?
Rwy'n cwrdd gyda chleientiaid, ymdrin â chyfreithwyr eraill, y gofrestrfa tir, asiantaethau gwerthu, morgeiswyr a chynghorau lleol. Mae'n swydd brysur iawn a'r broses yn symud yn gyflym iawn!

A fyddet ti wedi cael gwaith tebyg pe na fyddet wedi derbyn Ysgoloriaeth Cymhelliant?
Yn sicr mae'r profiad gwaith ychwanegol cefais trwy'r CCC wedi bod yn fantais.

Oes gennyt ddiddordeb arbennig ym maes y Gyfraith?
Oes, dwi'n hoff iawn o gyfraith trosedd, mae'n bwnc diddorol tu hwnt! Mae gen i hefyd ddiddordeb yng nghyfraith teulu, yn enwedig hawliau plant. Wedi graddio, hoffwn, efallai, fynd ymlaen i wneud LPC.

Llongyfs i Sarah a Ffion

Mae Sarah Thomas-Morgan, darlithydd Cyfraith ym Mangor, ar y rhestr fer am wobr dysgu cyfrwng Cymraeg yng Ngwobrau Addysgu Myfyrwyr Bangor.

Gwobrwywyd y darlithydd, Dr Ffion Llywelyn, Prifysgol Aberystwyth, mewn seremoni yng Nghynulliad Flynyddol y Coleg Cymraeg ar 8 Mawrth am gyflwyno ei doethuriaeth ar hunan-amddiffyn ac arfau.

@CyfraithCCC

Dilynwch @CyfraithCCC am y diweddaraf am ddigwyddiadau'r Gyfraith.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol